Christina Harrhy MPA B.Sc. (Anrh)
CEng, FICE, FCIHT CMgtl, CMICS
Cyfarwyddwr Corfforaethol –
Cymunedau
Tŷ Penallta
Parc Tredomen
Ystrad Mynach
Hengoed CF82 7PG

Y Preswylydd

Ein Cyf: EPG/TH1190/MR
Cysylltwch â: Martin Reynolds
Ffôn: 07917 445981
E-Bost: Peirianneg@caerffili.gov.uk
Dyddiad: 20fed Rhagfyr 2017

Annwyl Syr/ Fadam,

**GWELLIANT A468 / A469 CYLCHFAN PWLL-Y- PANT**
**LÔN PONTYGWINDY AR GAU AM DRI PHENWYTHNOS YN IONAWR**

Mae CBSC wedi gweithio gyda Llywodraeth Cymru i gytuno'n ddiweddar ar becyn o gyllid ar y cyd sydd wedi ein galluogi i newid y cynigion rheoli traffig gwreiddiol yn sylweddol.

Bydd y cynllun diwygiedig yn gweld ailgyflwyno trefniadau traffig lôn sengl am gyfnod byr o 8 i 10 wythnos o Ionawr 8fed 2018 (mae'r cyfnod amser yn dibynnu ar y tywydd), yna bydd y cynllun yn agored i reolaeth traffig ddwy lôn am weddill y gwaith.

Yn anffodus, fel rhan o waith gwella'r gylchfan, mae angen gosod tair ffos ar wahân i gynnal gosodiadau draenio a gosod gwasanaethau ar draws Lôn Pontygwindy, sydd yn angenrheidiol i gwblhau’r cynllun. Oherwydd agosrwydd y gwaith hwn i'r allanfa o gylchfan Pwll-y-pant, bydd angen ymgymryd â'r gwaith hwn o dan gau ffyrdd llawn er mwyn lleihau’r oedi a’r amhariad ar y gylchfan.

Bwriedir cau Lôn Pontygwindy am dri phenwythnos, gan ddechrau'r penwythnos 13eg Ionawr 2018. Ar y penwythnosau hyn ni fydd mynediad i Lôn Pontygwindy o Gylchfan Pwllypant, a bydd yn cau tua'r gogledd wrth y gyffordd â'r ffordd fynedfa sy'n arwain at Ystâd Ddiwydiannol Catnic. Bydd mynediad i gerddwyr drwy Ystâd Ddiwydiannol Pontygwindy a'r trosbont i Lanbradach. Os oes angen mynediad i'r anabl, bydd hyn drwy'r gwaith, cysylltwch ag aelod o dîm y safle i drefnu mynediad wedi ei hebrwng.

Bydd y ffyrdd yn cau ar y penwythnosau canlynol – 13$^{eg}$, 20$^{fed}$ a 27$^{ain}$ Ionawr 2018, a byddant ar waith o 08.00 fore Sadwrn tan 6.00am fore Llun, er y gwneir pob ymdrech i gwblhau'r gwaith ynghynt. Bydd yr holl lwybrau dargyfeirio ag arwyddion clir.

Cydnabyddir y gallai'r cau greu anhwylustod ac fe werthfawrogir eich amynedd a'ch cydweithrediad wrth i'r gwaith hanfodol hwn gael ei gwblhau.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu bryderon ynghylch y gwaith, cysylltwch â Martin Reynolds ar 07917 445981 i drafod.

Yr eiddoch yn gywir

dros ac ar ran
**Cyfarwyddwraig Gorfforaethol - Cymunedau**